



Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni ar **0800 121 4433**.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Ffurflen adolygiad dyfarniad Taliad Annibyniaeth Personol



Efallai y bydd eich Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn stopio os na chawn eich ffurflen yn ôl neu os na fyddwch yn cysylltu â ni erbyn:

DD/MM/BBBB

Sut i gwblhau eich adolygiad dyfarniad

Darllenwch drwy'r ffurflen cyn i chi ei chwblhau. Os ydy'r llythyr dyfarniad olaf gennych o hyd, darllenwch ef eto i'ch atgoffa sut y gwnaethom asesu eich anghenion o'r blaen.

Cwblhewch y ffurflen hon. Sicrhewch eich bod yn ateb y cwestiynau sy'n berthnasol i chi. Dywedwch wrthym am unrhyw newidiadau i'ch cyflwr iechyd neu anabledd, a sut mae'ch anghenion wedi newid yng **nghwestiynau 17 i 18**. Cwblhewch drwy ddefnyddio pen. Os gwnewch gamgymeriad, dylech ei groesi allan. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Cofiwch lofnodi'r datganiad.

Dychwelwch y ffurflen adolygiad wedi'i chwblhau. Rhowch y ffurflen adolygiad wedi'i chwblhau yn yr amlen a ddarparwyd. Mae'r cyfeiriad i ymateb iddo ar dudalen ar wahân ar ddiwedd y ffurflen hon.

Chi

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym **amdanynt**, nid chi.

01 Teitl Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall.	04 Enw olaf
02 Enw cyntaf	05 Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
03 Enwau canol, os oes gennych rai	06 Dyddiad geni DD/MM/BBBB

Mwy amdanoch chi

07 Eich cyfeiriad yn llawn Dyma'r cyfeiriad lle rydych yn byw nawr. Cod post	10 Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi
08 A yw hwn yn ysbyty, hosbis neu lety preswyl neu lety gofal nyrsio arall? Na Ydy	11 A oedd unrhyw newidiadau i'ch statws mewnfudo? Na Oedd Manylwch
09 Eich cyfeiriad gohebiaeth Defnyddiwch hwn os ydych am i ni ysgrifennu atoch yng nghyfeiriad gwahanol. Cod post	

Prif weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n eich cefnogi

Gall hyn fod eich meddyg teulu, ymgynghorydd ysbyty neu nyrs arbenigol. Rhwch eu manylion

12	Beth yw eu swydd?
13	Beth yw eu henw?
14	Beth yw eu rhif ffôn?

15	Beth yw'r cyfeiriad lle maent yn gweithio?
	Cod post

Eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd

Mae PIP yn cael ei asesu ar sut mae'ch cyflwr yn effeithio arnoch, nid y cyflwr ei hun.

16	A oedd unrhyw newidiadau yn eich cyflwr iechyd neu anabledd ers i ni ddyfarnu PIP i chi ddiwethaf?
	Na <u>Ewch i gwestiwn 17</u>
	Oedd
	Dywedwch wrthym yn y gofod isod

17 A yw eich anghenion bywyd bob dydd wedi newid ers i ni wneud penderfyniad ddiwethaf ar eich PIP?

Mae bywyd bob dydd yn golygu paratoi bwyd a'i goginio, bwyta ac yfed, rheoli triniaethau a chymryd meddyginiaeth, ymolchi a chael bath, rheoli anghenion toiled, gwisgo a dadwisgo, cyfathrebu, darllen, cymysgu â phobl eraill a rheoli arian.

Na **Ewch i gwestiwn 18**

Ydynt

Dywedwch wrthym yn y gofod isod

18 A yw eich anghenion symudedd wedi newid ers i ni wneud penderfyniad ddiwethaf ar eich PIP?

Mae symudedd yn golygu symud o gwmpas a chynllunio a dilyn taith.

Na **Ewch i Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd**

Ydynt

Dywedwch wrthym yn y gofod isod

Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd

Efallai bydd angen ar yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy sy'n gweithio â DWP fwy o wybodaeth am eich cyflwr iechyd neu anabledd a sut mae'n effeithio arnoch.

19 A ydych yn rhoi caniatâd i'ch meddyg neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i DWP am eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd?

Ydw, gellir rhannu gwybodaeth am fy nghyflwr iechyd neu anabledd â DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt hwy.

Na, ni ellir rhannu gwybodaeth am fy nghyflwr iechyd neu anabledd â DWP na'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio iddynt hwy.

Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon

Mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- prosesu eich cais
- gwneud penderfyniad ar eich cais, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP gael, cadw a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen eich caniatâd ar eich meddyg (neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill rydych wedi dweud wrth DWP amdanynt) i roi gwybodaeth i DWP. Os byddwch yn rhoi eich caniatâd, mae hyn yn rhoi gwybod iddynt fod ganddynt hawl cyfreithiol i rannu'r wybodaeth hon gyda DWP.

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch meddyg, ymgynghorydd ysbyty neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill am wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Mae hyn oherwydd ein bod yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol. Nid oes rhaid i chi roi eich caniatâd. Os na wnewch hynny, bydd DWP yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ganddynt eisoes, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a roddwch iddynt eich hun.

Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn drwy ffonio **0800 121 4433** a dweud eich bod am roi neu dynnu'ch caniatâd yn ôl. Os tynnwch eich caniatâd yn ôl, ni all DWP gael gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar eich ffurflen.

Rwyf wedi darllen a deall sut mae DWP yn defnyddio gwybodaeth

Eich llofnod

Dyddiad

DD/MM/BBBB

Cenedligrwydd

20 A oedd unrhyw newidiadau i'ch statws mewnfudo?

Na
Oedd
Manylwch

Datganiad

Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rydych yn cytuno:

- bod y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni yn gywir ac yn gyflawn
- y byddwch yn dweud wrthym am newidiadau mewn amgylchiadau ar unwaith.

Os yw'r wybodaeth a roddwch i ni yn anghywir neu'n anghyflawn, neu os nad ydych yn rhoi gwybod am newidiadau ar unwaith:

- efallai y byddwn yn stopio neu'n lleihau eich Taliad Annibyniaeth Personol
- efallai y byddwch yn cael gormod o Daliad Annibyniaeth Personol a bydd yn rhaid i chi dalu hwn yn ôl
- efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb ariannol
- efallai y byddwn yn eich erlyn.

Llofnod

Dyddiad

DD/MM/BBBB

Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi darllen a llofnodi'r datganiad.

Dychwelwch y ffurflen adolygiad dyfarniad wedi'i chwblhau. Rhowch y ffurflen adolygiad dyfarniad wedi'i chwblhau yn yr amlen a ddarparwyd. Mae'r cyfeiriad i ymateb iddo ar dudalen ar wahân ar ddiwedd y ffurflen hon.

Rhagor o wybodaeth

Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar www.gov.uk

Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartion eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

Os ydych wedi cynnwys gwybodaeth bersonol oedolyn arall yn eich cais, dylech roi gwybod iddynt.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i

www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol

Sianeli cyfryngau cymdeithasol swyddogol DWP



www.youtube.com/dwp



www.facebook.com/dwpyngymraeg



www.x.com/dwpyngymraeg



www.instagram.com/dwpgovuk



www.linkedin.com/company/dwp

Fideos Iaith Arwyddion Prydain (BSL) DWP



www.youtube.com/dwpsign

Freepost RTEU-HLRZ-BCYC
Personal Independence Payment 3
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1AD

Rhowch y tudalennau gorffenedig yn yr amlen a ddarparwyd fel bod y cyfeiriad uchod yn dangos drwy'r ffenestr. Nid oes angen stamp ar yr amlen oni bai eich bod yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.